# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 6

FFURFLENNI TRETH A THALIADAU

## PENNOD 1

FFURFLENNI TRETH

*Trafodiadau hysbysadwy*

### 46 Eithriadau ar gyfer caffaeliadau penodol prif fuddiannau mewn tir

(1) Mae'r eithriadau y cyfeirir atynt yn adran 45 fel a ganlyn.

(2) Trafodiad sy'n esempt rhag codi treth arno fel y darperir yn Atodlen 3.

(3) Caffaeliad ac eithrio rhoi, aseinio neu ildio les pan fo'r gydnabyddiaeth drethadwy, ynghyd â'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer unrhyw drafodiadau cysylltiol, yn llai na £40,000.

(4) Rhoi les am gyfnod o lai na 7 mlynedd, pan na fo'r gydnabyddiaeth drethadwy uwchlaw'r trothwy cyfradd sero.

(5) Aseinio neu ildio les—

(a) pan roddwyd y les yn wreiddiol am gyfnod o lai na 7 mlynedd, a

(b) pan na fo'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer yr aseinio neu'r ildio uwchlaw'r trothwy cyfradd sero.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 46. (See end of Document for details)*

(6) Rhoi les am gyfnod o 7 mlynedd neu ragor pan fo—

(a) y gydnabyddiaeth drethadwy ar wahân i rent yn llai na £40,000, a

(b) y rhent perthnasol yn llai na £1,000.

(7) Aseinio neu ildio les—

(a) pan roddwyd y les yn wreiddiol am gyfnod o 7 mlynedd neu ragor, a

(b) pan fo'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer yr aseinio neu'r ildio yn llai na £40,000.

(8) Mae'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer caffaeliad uwchlaw'r trothwy cyfradd sero os yw'n cynnwys—

(a) unrhyw swm y mae treth i'w chodi arno ar gyfradd o fwy na 0%, neu

(b) unrhyw swm y byddai treth i'w chodi arno felly oni bai am ryddhad a restrir yn adran 30(2) neu (3).

(9) Yn is-adran (6), ystyr "rhent perthnasol" yw—

(a) y rhent blynyddol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 36(2) o Atodlen 6), neu

(b) yn achos rhoi les y mae paragraff 31 o Atodlen 7 yn gymwys iddi, y gyfran drethadwy berthnasol o'r rhent blynyddol (fel y'i cyfrifir yn unol â'r paragraff hwnnw).

(10) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (3), (6) neu (7) er mwyn rhoi swm gwahanol yn lle'r swm a bennir yno am y tro.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 46 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** A. 46 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 46.